

Cyflwyniad i'r broses orfodol o olrhain gwastraff mewn modd digidol: crynodeb o'r cynigion

Ionawr 2022

Er bod y maes polisi gwastraff yn fater datganoledig, mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cytuno i gydweithio er mwyn datblygu gwasanaeth olrhain gwastraff ar gyfer y DU gyfan fel y gellir darparu system ddi-dor ledled y DU. Yn unol â hyn, mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cyflwyno a cheisio barn ar ein cynigion ar gyfer hyn. Byddwn yn defnyddio'r adborth i adolygu a mireinio ein cynigion a gaiff eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth eilaidd ac a fydd yn llywio'r gwaith o ddylunio'r gwasanaeth olrhain gwastraff o safbwynt digidol. Felly, nid ydym yn bwriadu cynnal rhagor o ymgynghoriadau cyhoeddus ar y ddeddfwriaeth eilaidd.

Isod crynhoir y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori.

Beth gaiff ei olrhain a beth fydd yn ei olygu i chi?

Cynigiwn y dylai gwastraff wedi'i reoli (yn cwmparu gwastraff cartrefi a gwastraff masnachol a diwydiannol sy'n beryglus ac nad yw'n beryglus) a gwastraff echdynnol (er enghraifft o fwyngloddiau a chwareli) fod yn destun gofynion cofnodi gwybodaeth newydd ar gyfer gwasanaeth olrhain gwastraff digidol.

Hefyd, rydym yn bwriadu ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw wastraff sy'n cynnwys Llygryddion Organig Parhaus (POPs) gael ei nodi fel rhan o'r gwasanaeth newydd a'i fod yn cael ei olrhain yn briodol wedyn.

Rydym yn cynnig cysoni'r mwyafrif o'r gofynion cofnodi â'r rhai ar gyfer gwastraff peryglus er mwyn galluogi defnyddwyr y gwasanaeth i gael y wybodaeth fwyaf dibynadwy am dynged ein gwastraff.

Bydd angen cofnodi gwybodaeth am y canlynol fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff newydd:

- gwastraff a drosglwyddir i berson, cwmni arall neu i safle arall a weithredir gan yr un person neu gwmni
- gwastraff a gaiff ei drin, ei waredu, neu ei adfer
- cynhyrchion diwedd gwastraff neu ddeunyddiau a gynhyrchir o wastraff ac a gludir i'r gyrchfan nesaf

Busnesau sy'n gwaredu gwastraff

Yn hytrach na chadw cofnodion papur ar gyfer y gwastraff sy'n gadael eich safle, caiff cofnod digidol ei greu fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff.

Gall eich cludwr gwastraff wneud y cofnod hwn ar eich rhan, ond fel nawr, bydd angen i chi sicrhau bod y manylion yn gywir.

Bydd yn haws nag erioed o'r blaen i weld beth yn union sy'n digwydd i'ch gwastraff, gan olygu bod eich cyfrifoldebau dyletswydd gofal yn llawer symlach. Os bydd yr un cludwr yn casglu'r un math o wastraff oddi wrthyhych yn rheolaidd, bydd y gwasanaeth yn cael ei ddylunio mewn ffordd sy'n arbed hyd yn oed fwy o amser i chi.

Preswylwyr

Ni fydd hyn yn newid eich casgliadau biniau gan y cyngor. Pan fydd gwastraff arall yn cael ei gasglu, mewn sgip er enghraifft (sydd wedi'i roi ynddo gennych chi neu gan rywun sy'n gwneud gwaith i chi), bydd angen i'r person neu'r busnes sy'n casglu'r gwastraff greu cofnod digidol.

Byddwch yn cael cyfeirnod unigryw y gallwch ei ddefnyddio i weld beth sy'n digwydd i'ch gwastraff, gan roi tawelwch meddwl i chi fod y gwastraff wedi'i waredu'n gywir, a chan helpu i leihau'r risg o dipio anghyreithlon.

Awdurdodau casglu gwastraff

Ni fydd angen i chi olrhain gwastraff sy'n rhan o gasgliadau cartrefi unigol. Bydd angen i'r gwastraff hwn gael ei gofnodi fel rhan o'r gwasanaeth ar y pwynt y mae'n cyrraedd safle derbyn ac yna caiff ei olrhain ymhellach fel sy'n ofynnol. Os ydych yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff y telir amdano i fusnesau masnachol neu safleoedd diwydiannol, yna bydd angen i chi gofnodi'r symudiadau gwastraff hynny o eiddo'r cynhyrchwyr.

Bydd cryn dipyn o'r wybodaeth roedd angen i chi ei chasglu a'i chofnodi gynt drwy WasteDataFlow bellach yn rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff felly ni fydd angen ichi adrodd arno ar wahân mwyach. Byddwch yn cael gwybodaeth llawer mwy amserol am yr hyn sy'n digwydd i wastraff yn eich ardal.

Gweithredwyr safleoedd gwastraff (unrhyw safle sy'n derbyn gwastraff yn cynnwys esemptiadau cofrestredig)

Bydd angen i chi gofnodi manylion y gwastraff a ddaw i'ch safle ac yna'r hyn rydych yn ei wneud ag ef yn ddigidol fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff yn hytrach na defnyddio system bapur.

Drwy'r gwasanaeth digidol, ein bwriad yw darparu crynodebau ac adroddiadau hawdd eu deall ac y gellir eu teilwra ynghylch y gwastraff rydych yn ei drin, gan eich helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eich gweithrediadau busnes a'ch helpu i gydymffurfio ag unrhyw gofrestrïadau neu drwyddedau gwastraff a all fod gennych.

Mewnforwyr ac allforwyr gwastraff

Bydd angen i chi gofnodi manylion y gwastraff rydych yn bwriadu ei fewnforio neu ei allforio o dan reolaethau Gwastraff y Rhestr Werdd gan ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff. Byddwch yn parhau i ddefnyddio system bresennol IWS Online i gofnodi unrhyw allforion hysbysadwy.


Bydd y rhai sydd ynghlwm wrth gludo'r gwastraff i'w allforio yn y DU hefyd yn ychwanegu eu gwybodaeth at y gwasanaeth olrhain gwastraff, felly byddwch yn gallu gwybod lle yn union mae unrhyw wastraff rydych yn ei reoli ar bob cam yn y symudiad, gan eich galluogi i gyflawni eich cyfrifoldebau dyletswydd gofal.

Swyddogion rheoleiddiol amgylcheddol

Byddwch yn gallu cael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr ac amserol am yr holl symudiadau a gweithgareddau gwastraff yn eich ardal. Bydd hyn yn eich helpu i ganfod y canlynol:

- gwastraff sy'n diflannu neu nad yw'n cyrraedd cam nesaf y gadwyn (a allai fod yn arwydd ei fod wedi cael ei ddympio'n anghyfreithlon) a thystiolaeth ynghylch pwy all fod yn gyfrifol
- gwastraff sy'n pentyrru ar safleoedd, disgrifiadau o wastraff sy'n newid yn annisgwyl (i osgoi treth dirlenwi o bosibl)
- patrymau anarferol o drosglwyddo gwastraff (a all fod yn arwydd o gynlluniau twyll posibl).

Isod crynhoir yr adegau pan fydd angen i wybodaeth am symudiadau, trosglwyddiadau neu weithgareddau gwastraff gael ei nodi ar y system olrhain gwastraff. Nodwch mai enghraifft gyffredinol yw hon ac nad yw'n cwmpasu pob senario bosibl.



Eithriadau i olrhain gwastraff

Rydym yn cynnig, ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus yn unig, na fydd angen cofnodi manylion y gwastraff a gaiff ei drin, ei ryddhau, ei waredu neu ei adfer ar y safle cynhyrchu.

Hefyd, ni fydd angen i'r rhai ag esemptiadau gwastraff cofrestredig lle na chaiff gwastraff ei drosglwyddo i'r man lle maent wedi'u cofrestru neu o'r man hwnnw er enghraifft, D2 - Llosgi meinwe planhigion/pren heb ei drin o weithgareddau gwaith saer (Cymru a Lloegr) neu Baragraff 30 (cyfatebol) Llosgi gwastraff meinwe planhigion ar dir agored yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban gofnodi unrhyw beth ar y gwasanaeth olrhain gwastraff am reoli'r gwastraff o dan yr awdurdodiadau hyn.

Mae'r adran hon hefyd yn ystyried pa ofynion cofnodi ddylai fod ar waith ar gyfer mathau eraill o awdurdodiadau gwastraff megis Sefyllfaoedd Gwastraff Risg Isel a Datganiadau Sefyllfa Rheoleiddiol.

Pa drefniadau adrodd neu hysbysu presennol o ran gwastraff a fydd yn rhan o'r gwasanaeth?

Unwaith y bydd y gwasanaeth olrhain gwastraff newydd ar waith, bydd gwybodaeth am drosglwyddiadau, symudiadau a gweithgareddau gwastraff yn cael ei chofnodi mewn un man, felly byddwn yn gallu dileu llawer o'r gofynion adrodd ar wahân presennol ar gyfer busnesau ac awdurdodau lleol yn cynnwys:

- ffurflenni safleoedd trwyddedig/a ganiateir chwarterol
- ffurflenni gwastraff peryglus (Cymru a Lloegr)
- ffurflenni crynhoi gwastraff (Gogledd Iwerddon)
- ffurflenni esemptiadau cymhleth y gall SEPA (yr Alban) ofyn amdanynt
- gwybodaeth awdurdodau lleol am gasglu a thrin gwastraff
- yng Ngogledd Iwerddon - nodiadau cludo rhaghysbysu am wastraff peryglus a chyflwyno ffurflenni Atodiad VII i NIEA
- yn yr Alban - cyflwyno ffurflenni Atodiad VII cyn cludo a chyflwyno copiâu adneuo nodiadau cludo gwastraff peryglus/arbennig i SEPA

Gwybodaeth i'w chofnodi

Yn yr adran hon nodir rhai o'r manylion ychwanegol y gall fod eu hangen fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff newydd ar gyfer rhai gweithgareddau gwastraff. Ni fydd yr holl ofynion gwybodaeth yn gymwys i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth olrhain gwastraff. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o wastraff a gaiff ei drin neu'r math o symudiad gwastraff a gynhelir a rôl rhywun yn y broses honno.

Yn dibynnu ar y math o symudiad neu drosglwyddiad a gynhelir, mae rheoleiddwyr eisoes yn gofyn am gofnodi gwybodaeth gan gynnwys y canlynol:

- dyddiad ac amser y symudiad neu'r trosglwyddiad
- manylion y cynhyrchwr gwastraff, yr anfonwr neu'r cychwynnydd
- manylion y cludwr gwastraff a manylion y gwastraff (yn cynnwys disgrifiad, codau perthnasol, a'r cyfansoddiad a'r cynnwys cemegol).

Y wybodaeth yr awgrymir ei chofnodi'n ychwanegol i hyn yw:

- dynodydd unigryw ar gyfer yr holl symudiadau gwastraff
- manylion yr unigolyn a wnaeth ddosbarthu'r gwastraff
- manylion cyrchfan y gwastraff
- Cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)
- manylion llwythi a wrthodwyd neu sydd dan gwarantîn
- manylion trin gwastraff yn cynnwys tynged y gwastraff
- Nodi Llygryddion Organig Parhaus (POPs) mewn gwastraff
- manylion cynhyrchion diwedd gwastraff neu ddeunyddiau a gynhyrchir o wastraff ac i le y maent yn mynd nesaf

Mae'r adran hon hefyd yn gofyn i ymatebwyr rannu eu barn ynghylch a hoffent weld y gofynion ar gyfer y Rheoliadau Nwyddau Peryglus yn cael eu cynnwys fel rhan o'r system, a'r ffordd orau y gall deiliaid gwastraff ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r hierarchaeth wastraff yn eu barn nhw.

Ffyrdd o roi gwybodaeth

Rydym am sicrhau bod pawb sydd angen cofnodi gwybodaeth ar y gwasanaeth olrhain gwastraff ddwyieithog¹ yn gallu gwneud hynny'n hawdd, heb amharu fawr ddim ar eu ffyrdd presennol o weithio. Felly, bwriadwn ddatblygu gwasanaeth (i siaradwyr Cymraeg a Saesneg) a fydd yn fodd i nodi gwybodaeth am wastraff mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan alluogi gweithredwyr i barhau i ddefnyddio eu systemau eu hunain lle y bo'n bosibl.

Yn seiliedig ar ein hymchwil ymhlith defnyddwyr, rydym wedi nodi'r gofynion canlynol o ran opsiynau cofnodi data:

1. Teipio'r cofnodion â llaw - naill ai drwy'r ffurflen ar-lein neu ap
2. Lanlwytho data o daenlenni
3. Lanlwytho data o feddalwedd olrhain gwastraff bresennol drwy daenlen
4. Trosglwyddo data'n uniongyrchol o feddalwedd olrhain gwastraff sy'n bodoli eisoes (neu drwy ddefnyddio codau bar neu godau QR) i'r Gwasanaeth Olrhain Gwastraff

Gallai'r feddalwedd sy'n bodoli eisoes fod yn ap masnachol oddi ar y silff (COTS) neu'n ap pwrpasol sydd wedi'i ddatblygu'n annibynnol.

¹ Gellir rhoi'r wybodaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)

Er mwyn sicrhau bod y gallu i ryngweithredu yn effeithiol a bod data'r gwasanaeth olrhain gwastraff o'r safon uchaf, rydym yn bwriadu ymgynghori â rhanddeiliaid a gweithio gyda nhw wrth ddatblygu data o safon addas.

Pryd fydd angen cofnodi gwybodaeth

Ein nod yw bod yr holl symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff yn cael eu cofnodi fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff mewn amser real – rhaid cofnodi gwybodaeth ar y system pan fydd rhywbeth yn digwydd i'r gwastraff.

Yn y diwydiant gwastraff mae'n debygol y bydd rhai busnesau lle mae proses gofnodi amser real yn addas iddynt, ond yn achos eraill gall gymryd rhagor o amser i wneud y newidiadau sydd eu hangen er mwyn olrhain gwastraff mewn amser real fel rhan o'u prosesau busnes.

Felly, rydym yn bwriadu bod yn hyblyg o ran pryd mae angen cofnodi gwybodaeth fel rhan o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae rhai heriau ynghlwm wrth y fath hyblygrwydd o ran y ffordd y gallwn sicrhau y gall y gwasanaeth olrhain gwastraff weithio mewn ffordd ymarferol i fusnesau a rheoleiddwyr.

Er mwyn lliniaru'r heriau hyn mae'r adran hon yn cynnig y bydd angen rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am yr holl drosglwyddiadau gwastraff cyn symud neu drosglwyddo gwastraff, gyda phartïon gwahanol yn cadarnhau neu'n cyflwyno manylion pellach fel sy'n briodol yn ddiweddarach. Mae'r wybodaeth lefel uwch hon yn cynnwys pethau fel manylion y cynhychr, y deiliad neu'r person sy'n trefnu'r llwyth, disgrifiad o'r gwastraff a'r manylion, enw'r cludwr a manylion y cerbyd os ydynt yn hysbys, dyddiad arfaethedig symud y gwastraff a manylion y gyrchfan.

Bydd yn ffurfio cofnod a gaiff ddynodydd unigryw gan y system er mwyn galluogi eraill ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi (a rheoleiddwyr) i weld gwybodaeth am y gwastraff a gaiff ei symud a rhoi eu gwybodaeth mewn amser real os oes angen.

Mae'r adran hon hefyd yn ceisio barn am y ffordd orau o gynnwys symudiadau gwastraff rheolaidd fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff oherwydd rhoddir y gorau i ddefnyddio tocynnau tymor.

Rolau a chyfrifoldebau

Yn yr adran hon nodir y rolau a chyfrifoldebau newydd a fydd gan bartïon gwahanol yn y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob deiliad gwastraff perthnasol fod wedi'i gofrestru â'r gwasanaeth olrhain gwastraff a sicrhau bod y manylion perthnasol am symudiad, trosglwyddiad neu weithgaredd gwastraff yn cael eu rhoi ar y system o fewn y terfynau amser gofynnol.

Bydd modd i un defnyddiwr gofrestru parti arall ar ei ran, er enghraifft gall cludwr gwastraff gofrestru cynhyrchwr gwastraff.

Ni fydd angen i ddeiliaid tai ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff, fodd bynnag bydd angen iddynt barhau i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod eu gwastraff ond yn cael ei drosglwyddo i berson awdurdodedig, fel sy'n digwydd nawr. Bydd yn ofynnol i gludwyr

gwastraff nad ydynt yn rhan o awdurdod lleol roi'r dynodydd unigryw a gaiff ei greu ar gyfer symudiad gwastraff i'r deiliad cartref dan sylw, a disgwyliwn y bydd y gwasanaeth olrhain gwastraff yn eu galluogi i weld gwybodaeth am y symudiad hwnnw os byddant am weld y fath wybodaeth.

Gofynion eithrio'n ddigidol

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021² yn ei gwneud yn ofynnol i ni esemptio'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Ni ddisgwyliwn y bydd nifer mawr o ddefnyddwyr sydd ynghlwm wrth reoli gwastraff wedi'u heithrio'n ddigidol.

Rydym hefyd yn cynnig darparu proses amgen er mwyn galluogi pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol i ddarparu eu gwybodaeth mewn modd nad yw'n ddigidol, ac i'r wybodaeth hon gael ei chofnodi ar y gwasanaeth olrhain gwastraff er mwyn sicrhau bod cofnod llawn o symudiadau, trosglwyddiadau a gweithgareddau gwastraff.

Bydd angen rhoi rhai rheolaethau ar waith ynghylch cofrestru unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol go iawn a gaiff eu cynnwys. Felly, mae'r adran hon yn nodi sawl egwyddor cyffredinol a fydd yn gymwys, yn cynnwys yr angen i'r rhai sy'n cofrestru fel defnyddiwr sydd wedi'i eithrio'n ddigidol ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth benodol ynghylch y rheswm dros hynny.

Cadw data, cael gafael ar ddata a chyfrinachedd data

Yn yr adran hon, nodir y lefel o wybodaeth sy'n rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff y bydd gwahanol fathau o ddefnyddwyr yn gallu cael gafael arni. Rydym yn cynnig y bydd rhyngwyneb cyhoeddus sy'n galluogi defnyddwyr i greu a gweld adroddiadau gwybodaeth cryno ar wastraff.

O ystyried y bydd y gwasanaeth olrhain gwastraff yn gofnod canolog o symudiadau a gweithgareddau gwastraff, y bydd yn bosibl gwneud gwaith dadansoddi ystadegol o bwys yn seiliedig arno, rydym yn cynnig y caiff cofnodion sy'n rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff eu cadw am fwy o amser na'r gofynion presennol, sef cyfnod o 20 mlynedd neu hyd nes y caiff trwydded ei hildio, heblaw am safleoedd tirlenwi lle cedwir cofnodion am 20 mlynedd arall ar ôl iddynt gael eu hildio.

Ar ôl cyfnod o chwe blynedd, bydd peth gwybodaeth am gofnodion unigol, megis data personol a llofnodion electronig yn cael eu dileu ond cedwir data nad yw'n bersonol a all fod o ddefnydd at ddibenion ystadegol. Lle bydd cofnodion yn ymwneud ag ymchwiliad sy'n mynd rhagddo neu gamau gorfodi rheoleiddiwr, gellir cadw gwybodaeth bersonol am gyfnod hwy hyd nes y caiff yr achos perthnasol ei gau.

² [Deddf yr Amgylchedd 2021](#)

Hefyd, cynigir dull o reoli gwybodaeth sensitif, er enghraifft lle gall y wybodaeth nodi cyfeiriad lleoliad hynod sensitif neu wybodaeth am weithgareddau mewn lleoliad a allai, o'i ddatgelu, fod yn groes i fuddiannau diogelwch cenedlaethol.

Gorfodi

Yn yr adran hon, ceisir barn am droseddau a sancsiynau sifil a gyflwynir ynghylch gofynion olrhain gwastraff digidol megis ar gyfer:

- methu â chofrestru i fod yn rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff lle y bo'n ofynnol,
- darparu gwybodaeth anghyflawn neu anwir mewn cofnod digidol a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid
- symud neu dderbyn gwastraff heb gofnod digidol

Swyddogaethau rheoleiddio

Yn yr adran hon, nodir y swyddogaethau rydym yn cynnig eu gosod ar y rheoleiddwyr amgylcheddol perthnasol pan gyflwynir y gwasanaeth olrhain gwastraff digidol. Ymhlith y swyddogaethau hyn mae cyfrifoldeb i archwilio'r wybodaeth am y gwasanaeth a nodi'r rhai nad ydynt yn bodloni'r gofynion ac ymchwilio iddynt.

Codi taliadau

Yn unol â'r egwyddor y sawl sy'n llygru sy'n talu, pan fydd y gwasanaeth olrhain gwastraff electronig yn fyw, bwriedir i ddefnyddwyr y gwasanaeth dalu am ei weithredu a'i gynnal yn barhaus, ynghyd ag unrhyw waith rheoleiddio cysylltiedig. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn cynnwys pwerau i adennill y costau hyn.

Bydd y rheoleiddwyr amgylcheddol yn ystyried diwygiadau angenrheidiol i'w fframweithiau codi taliadau presennol, er enghraifft gwastraff peryglus, ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i daliadau ar wahân.

Mae'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sut y dylid adennill costau gweithredu a chynnal y gwasanaeth olrhain gwastraff byw yn y dyfodol. Bydd y rheoleiddwyr yn defnyddio ymatebion i'r cwestiynau hyn i lywio'r gwaith o ddatblygu eu fframweithiau codi taliadau.

Gweithredu

Yn yr adran hon, gofynnir am farn am opsiynau i gyflwyno'r gwasanaeth olrhain gwastraff digidol o ddyddiad arfaethedig o 2023/2024 yn dibynnu ar waith datblygu TG ac anghenion pontio busnesau, ac mae hefyd yn gofyn i'r sawl sy'n ymateb roi gwybodaeth am y costau a'r buddiannau posibl yn sgil trawsnewid y ffordd o weithio.

Hefyd, nodir y prif newidiadau y bydd angen eu gwneud i ddeddfwriaeth a systemau gwastraff presennol megis y system WasteDataFlow o ganlyniad i gyflwyno'r gwasanaeth olrhain gwastraff.